# DINESYDD

## Medi

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH
1984
RHIF 109

CBC RADIO

# Cic i Bobl Caerdydd

Parhau mae hanes cythryblus CBC - radio annibynnol Caerdydd.Bellach does gan y cwmni ddim Prif Weithredwr; a daeth y newydd fod tri o brif gyflwynwyr y cwmni ar fin mynd gan adael bid siwr,fylchau mawr ar eu hôl.Ond bylchau serch hynny gaiff ei llenwi yn weddol ddidrafferth. Deellir erbyn hyn na fydd oriau darlledu CBC yncael eu cwtogi wedi'r cwbl felly bydd rhaid llenwi'r bylchau.

Yn bwysicach ac yn fwy arwyddocaol na hyn oll yw'r cyhoeddiad syfrdanol fod y cwmni wedi cael gwared bron yn gyfangwbl ar eu rhaglenni Cymraeg! Hawdd gweld felly mai llwybr main a charregog fu hynt y Gymraeg yn CBC erioed er gwaetha'r addewidion cynnar o safbwynt yr iaith.

Sefydlwyd Cwmni Darlledu Caerdydd bedair blynedd yn olynghanol cyffro a gobaith mawr.Roedd yr orsaf yn arbrawf unigryw gan mai hi oed yr unig radio annibynnol drwy wledydd Prydain ag iddi Ymddiriedolaeth,sef cysylltiad uniongyrchoo a'r gymdeithas neu'r cyhoedd roedd hi'n ei gwasanaethu.Roedd son y byddai'r radio newydd yn fwy gwreiddiol a beiddgar na chwmniau eraill tebyg iddi. Byddai'r Gymraeg yn cael lle teilwng arni a byddai buddianau carfanau lleiafrifol yn cael eu diogleu.Ac mi gafwyd hyn ol ar y dechrau un.

Ond nid oedd babandod CBC heb ei drafferthion chwaith,ac nid tan ar ôl eira mawr 1982 y llwyddodd i ennill lefel dderbyniol o'r gynulleidfa pan gipiodd 42% (22% erbyn hyn.)

Roedd oriau Cymraeg CBC eisoes wedi'u crebachu o awr a hanner bob nos i awr.Yr esgus a ddefnyddiwyd ar y pryd oedd dyfodiad S4C ac y byddai'r orsaf radio'n cystadlu â'r sianel deledu am gynulleidfa. Wedyn yn ystod teyrnasaid Jeff Winston gwelwyd o dipyn i beth leihad yn nifer y penawdau newyddion Cymraeg nes eu dileu yn llwyr erbyn mis Awst eleni. Yr esgus y tro hwn oedd addrefnu rhaglenni ar gyfer yr haf.Ar ben hyn diddymwyd y rhaglen Gymraeg feunyddiol, Cadw Cwmni,a'r esgus a roddwyd y tro hwn oedd ymadawiad y cynhyrchydd Cymraeg i fynd i swydd newydd-cam rhesymol ac arferol mewn unrhyw gwmni. Pam na ellid penodi rhywun arall yn ei le?Pam fod rhaid cael gwared ar y cyflwynydd Cymraeg rhan amser hefyd? Erbyn cyhoeddi'r rhifyn hwn y cyfan a erys o ran rhaglenni Cymraeg yw dwyawr o gerddoriaeth Gymraeg bob nos Sul a hynny rhwng deg o'r glocn a hanner nos,sef rhaglen ola'r wythnos ar CBC.A dyan greu sefyllfa Ghetto berffaith.

Ni ddylid anghofio'r bwletin newyddion am 6 o'r gloch bob nos yn ystod yr wythnos wrth gwrs. Felly o dros ddeg awr o Gymraeg(gan gynnwys newyddion) ym 1980,bellach ni cheir ond rhyw ddwy awr a hanner. A gwnaed hyn oll gyda sel bendith yr Awdurdod Darlledu Annibynnol.Yr esgus a roddaant hwythau yw diffyg arian,ond y gwir amdani yw bod CBC wedi arbed cyflog y cynhyrchydd Cymraeg ar ôl iddo fynd i swydd arall ac am £20 yr wythnos gallai CBC fod wedi cadw pob un o'i rhaglenni Cymraeg.Am tua £20 yr wythnos mae CBC wedi gwerthu pob un o'i raglenni Cymraeg ond am un rhaglen ddwy awr.Mae'n amlwg er gwaeth'r datganiadau i'r wasg oedd yn sôn am ymrwymiad i'r Gymraeg nad yw'r iaith ond yn ddraenen yn ystlys CBC.

AR I FYNY

Yn groes i'r hyn ddywedwyd yn y rhifyn dwethaf o'r Dinesydd,mae Clwb Cymric wedi sicrhau dyrchafiad i Adran Gyntaf Cynghrair Caerdydd a'r Cylch.Dyma'r tro cyntaf yn hanes y clwb i'r tim gyrraedd yr uchelfannau a phob llwyddiant yn yr ymgyrch yn ystod tymor 1984-85.




# TU MEWN:

Camp Croes Cwrlwys Tud 3.
Cofio Dafydd Huws Siop y Bont Tud 5.
Ruth Parry Tud 7.
Yr I.B.A. yn ateb y Dinesydd Tud 9.

# GOLYGYDDOL

CHWE MIS heb gyflog, heb siec dol hyd yn oed. Sefyllfa anghyfarwydd i ddarllenwyr y Dinesydd, ond dyna yw sefyllfa echrydus 22,500 o lowyr a'u teuluoedd yn Ne Cymru.

Gwnaed cais gan y glowyr i Gyngor Dinas Caerdydd am yr hawl i gasglu cyfraniadau tuag at y gronfa galedi o ddrws i ddrws ac ar strydoedd y ddinas bob dydd Iau tra pery'r streic. Ond yn eu doethineb penderfynodd pwyllgor trwyddedu'r cyngor i ganiatau'r cais cyntaf a gwrthod yr ail.

Anodd, a dweud y lleiaf, yw deall rhesymeg y penderfyniad. Anodd hefyd yw deall sut y gall rhyw ddyrnaid o gynghorwyr hunan-dybus a chyfforddus eu byd wrthod yr hawl i'r sawl sy' mewn angen gwirioneddol i ofyn i eraill am gymorth. Cymaint mwy yw'r gwarth a'r sarhad ar ein cynrychiolwyr etholedig o gofio mai ar elw'r pyllau a chwys a gwaed y glowyr y codwyd ein prifddinas.

Crebachu fu hanes maes glo De Cymru ers rhai blynyddoedd bellach, a disodlwyd y diwydiant o'i safle fel prif goflogydd y De. Lleihau hefyd wnaeth nerth a dylanwad Undeb y Glowyr yn Ne Cymru.

Nid swyddi yn unig a gollwyd ond nifer helaeth o gymunedau'r cymoedd a'u ffordd o fyw. Mae cyfraniad y glowyr, ac Undeb y Glowyr fel corff, i ddiwylliant a diwylliant gwleidyddol y De yn amrhisiadwy.

Nid propaganda slic yw honiad yr undeb eu bod yn awr yn ymladd nid yn unig am eu dyfodol eu hunain ond am ddyfodol cymdeithasau cyfan.

Mae brwydr y glowyr yn gymaint o frwydr dros y diwylliannau Cymreig ag yw brwydr Cymdeithas yr Iaith - ac mae'r ymdrech a wnaed gan y Gymdeithas ar ran y glowyr a'r ymateb a gafodd ganddynt yn dangos yn glir eu bod nhw o leiaf yn deall hynny.

Peidiwn a gadael i'r glowyr gael eu llwgu yn ôl i byllau a gaeir yn y dyfodol agos. Cefnogwn hwy yn hael.

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau at rifyn Hydref at Shân Emlyn, 3 Llandennis Ave., Cyncoed, Caerdydd, CF2 6JD erbyn Medi 20.

# Y CALENDR

CALENDR CND

14 Medi: Rali gyhoeddus am amddiffyn suful yn y Tabernacl, YrHayes, Caerdydd am 7.30 Ymhlith y siaradwyr mae Duncan Campell (NewStatesman) Trefnir gan CND Cymru.

20-30 Medi: Mae Merched Greenham yn gofyn am 10 miliwn o ferched i ymgynull yno am 10 niwrnod ym mis Medi. Am fwy o fanylion ffoniwch y Siop Heddwch - 489260

25 Medi: Grwp CND Cymraeg C Caerdydd, Clwb Ifor Bach am 7.30. Y pwnc dan sylw fydd y y mudiad heddwch yn Rwsia.

6 Hydref: Oedfa Diolchgarwch y tu allan i'r Ganolfan Americannaidd ym Mreudeth. Am 1.00pm. Pregethwr: Parch. DR Thomas ac eitemau cerddorol gan y Parch. Tecwyn Ifan. Gobeithir trefnu bws neu lu o geir i fynd yno. (dan ofal CND Cymraeg)

12 Hydref: Noson gyda'r BrodyrMarcs yng Nglwb Ifor Bach. Trefnir gan CND Cymraeg Caerdydd.

27 Hydref: ProtestCND yn erbynTrident yn Barrow in Furness. Cysyllter a'r Siop Heddwch.

MEDI 10

Noson Agoriadol Merched y Wawr.

Siaradwr Gwadd - Biry Palfrey.

Croeso cynnes i bawb.

CALENDR YR URDD

Cymuned y Waun Ddyfal/Mynydd Bychan.

MEDI 12: noson Geilys rhwng Penylan a'r Waun Ddyfal/ Mynydd Bychan yng Nglwb Ifor Bach am 8pm.

MEDI 15: Ffair Sborion. Neuadd St Thomas, Ffordd Pantbach, 2pm.

MEDI22: Trip i'r teulu i Ganolfan Hamdden Abertawe. Manylion: Elfed Evans; (754396)

HYDREF 19: Noson "Kaerdydd" gyda Frank Hennessy am 8pm yn Neuadd Chwaraeon Ysbyty'r Mynydd Bychan. Bar a bwyd. Pris £2.50. Tocynnau: Elfed Evans (754396) GarethJones (623479) Tony Couch (753625) Dave Taylor (616872)

HYDREF 8: Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. 7.30pm yn Festri Capel y methodistiaid, Velindre Road. Yn annerch; Gwynfor Hughes.


A ydych yn priodi eleni?
Ffotograffiaeth Creadigol gan
GWENAN
CAERDYDD 732233
Lluniau rhamantus sy'n creu atgofion melys.



TAFLEN
LLYFRAU,
CARDIAU, PAPURAU,
RECORDIAU, CASETIAU.
Canolfan yr Urdd,
Heol Conwy,
Caerdydd. 27530.
Ar agor tan 7 o'r gloch (5 ar nos Sadwrn)
CYFAMODIR POB ELW I GANOLFAN YR URDD, CAERDYDD


£

MAE'N GAS GENNYM GODI'R MATER TRA BOD CYMRY CAERDYDD YN CAEL EI BLINGO YN CODI ARIAN I EISTEDDFOD YR URDD. OND ONI CHWYDDIR COFFRAU'R DINESYDD NI FYDD GAN Y BRIFDDINAS EI PHAPUR BRO ERBYN BYDD BYRTI BWS WEDI DOD I BEN EI DAITH. CYFRANIAD I'CH DOSBARTHWR AR UNWAITH.


Diolch am gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# WIL AR EI WILIAU

"Lle wyt ti'n mynd ar dy holides,Wil?"medda fi.
"dwi wedi bod"medda fynta fel egsorset.
"Sgin ti ddim llawer o liw haul"medda finnau,"lle buost ti?"
"Croes Cwrlwys"
"Ydi hwnnw'n bell o Benidorm?' medda finna'n finiog,achos mi wyddwn fod Wil ag uchelgais dosbarth canol ac mai carafanio yn Llydaw fydda fo'n ei neud bob blwyddyn ar ôl steddfod.
"Paid a bod yn wirion"medda fo,"wt ti'n gwbod yn iawn na faswn i byth yn mynd i nunlla efo'r genfaint Seisnig"
"Wrth gwrs"medda finna,"ond o'n i'n meddwl achos bod y fferi wedi bod ar streic na fasat ti wedi manijio croesi i Lydaw leni.A beth bynnag dydi Crees cyrliws ddim yn swnio fatha Llydaweg i mi".
"Drycha met" medda Wil,a'r egsorset yn dechra glanio erbyn hyn,"enw Cymraeg ydi Croes Cwrlwys ac yng Nghymru w'e o"

"Wel o leia mi gest ti arbed ffer eroplen"medda fi.
Ond dim ffer helicoptar" medda Wil a'i jest o'n chwyddo."Ma gynnon nhw landing pad yno ac os mynd am holides dwi'n credu mewn mynd mewn steil"
A chysidro mai propio'r bar yn yr Halfway odd o ar y pryd ron i'n meddwl fod gynno fo dipyn o wynab i sòn am steil.
"Cofia di"medda fo"ar ôl i mi weld y stiwdio mi faswn i wedi gallu mynd mewn jymbo jet a'i hiwsio hi fel hangar, myn yffar i"
"Holide camp ydi o?"
"Mi allet ti ddeud hynny,met Mi wt ti'n cerdded mewn ac ma na wahanol liwia o garpad yn mynd a ti i wahanol lefydd,un lliw i'r stiwdio un lliw i'r bloc adloniant, a lliw arall lle ma'r wyrcyrs.
"O's na lot o bobl yn gweithio yno,ta?"
"Na,dim llawar ohonyn nhw! Joc.Ha!Ha! Ond ddeudai wrthat ti un peth,ma na lein lliw igam ogam yn mynd trw gamol y carpad ma a mae o'n gweithio'n gret ar ôl peint ne ddau,ond mae o'n gneud dy ben di droi pa wt ti'n sobor."
"Pwy fasa'n bildio lle felna i bobl fynd ar holides?"

"Goronwy Daniel Enterprises wrth gwrs.Dydyn nhw i mewn i bob dim yr EsPedwarEc na.Do'N i'n disgwyl gweld Superted yn y nghwarfod i'n drws,ond ma'nsiŵr bod o'n cal hobnobio efo'r crach yn yr egseciwtif deining rwm"
"Egseciwtif deinigg rwm?Mewn holide camp?"
"Wel ia wrth gwrs.Fedri ddim disgwl i'r nobs fyta efo'r wyrcyrs.Ma nwh mor fudur. Gredi di ddim,ond mi roddon nhw gytia lyfli iddyn nhw efo blocia tin gwyn gwyn a walia melyn ac o fewn wsnos dodd y lle fel twlc mochyn"

"Mae o'n swnio dipyn bach fel Byclins,Pwllheli pan ma stiwdants yn gweithio na yn yr ha'"
Ond sgynnyn nhw ddim redcots. Cofia ma gynnynnhw preifet armi efo bois wrth y giat ac un arall wrth y drws. Faswn i ddim yn licio dengid o na"
"Sut doist ti allan heddiw ta?"
"O,da ni'n cal wyrc permit i ddwad i'r anecs yn Pontcanna bob hyn a hyn a dwi i ar un o rheini heddiw.Na chymra i ddim un arall,ma'r bys yn mynd a ni nôl eni minit,ac ma hi'n lot rhatach i yfad yno"
"Pryd ti'n gorffen dy holides yn Crwys Horlics?"
"Nefar myn yffar i.Wrach na di'r chalets ddim cystal â Byclins ond ma nhw'n rhoi gwylia i ti rownd y flwyddyn yn fama!"



Canolfan deledu newydd HTV Cymru yng Nghroes Cwrlwys.Costiodd y ganolfan dros £15 miliwn.

## Croesawu Arweinydd Newydd

Yn gyntaf oll fe garem groesawu Jane Richards fel arweinyddes newydd i Gôr Ganolfan Caerdydd a hefyd i Mair Wyn Jones a fydd yn is-arweinyddes.

Bydd ymarfer cyntaf y côr y tymor nesa' yn cael ei gynnal yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy ar Nos Iau, 6ed o Fedi am 7.30 o'r gloch. Byddwn yn ymarfer bob wythnos ar Nos Iau a hoffwn estyn gwahoddiad cynnes i aelodau newydd i'r côr. Fe fydd yna groeso mawr i bawb a chofiwch ofyn i'ch ffrindiau hefyd.

Yn ystod y flwyddyn mae'r côr yn bwriadu cynnal un cyngerdd ffurfiol, yn ogystal â chanu mewn eisteddfodau a nosweithiau llawen ac yn y blaen. Mae 'na bosibilrwydd y bydd yna daith i Lydaw am ddeg diwrnod yn Awst y flwyddyn nesa' i ganu yn yr Wyl Geltaidd - un o'r prif ddigwyddiadau sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Fel y gŵyr aelodau presennol y côr mae nosweithiau cymdeithasol hefyd yn rhan bwysig o'n rhaglen a gobeithiwn drefnu taith penwythnos i gynnal un neu ddau o gyngherddau mewn rhannau eraill o Gymru.
Unwaith eto croeso cynnes i bawb a gobeithiwn weld llawer o wynebau newydd ymysg yr hen rai!

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i John a Mali Rowlands ar enedigaeth Elin Haf ar y 3ydd o Awst.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Tasg amhosibl ydy crynhoi mewn un golofn yr holl argraffiadau ac atgofion melys am Eisteddfod Llambed.

Dyna beth oedd Eisteddfod hapus a chartrefol - am Eisteddfod Llambed y bydd yr atgofion ac nid am Y Genedlaethol yn 1984. 'Roedd blas a naws lleol iddi yn rhoi'r argraff bod Sir Aberteifi i gyd wedi penderfynu rhoi clamp o groeso i ni o weddill Cymru. Acenion y Cardi oedd amlyca ar y cae. Ar ôl dechrau gwlyb penderfynodd y Bod Mawr, nad yw bob amser yn garedig i'r Ŵyl, anfon gwenau'r haul ar y 'Steddfod.

Treuliais lai o oriau yn y Pafiliwn eleni nag erioed o'r blaen, nid nad oedd yr arlwy yno'n denu - ond bobol bach doedd dim posib cyrraedd bob man. Bu raid i mi ddethol yn ofalus o fwydlen flasus Rhaglen y Dydd. Mynychais y seremoniau i gyd yn y Pafiliwn a chael gwefr o fod yn rhan o dorf fawr yn gwrando ar feirniadaeth lenyddol, ac fe allech glywed pin yn disgyn bob tro - dweud wrthyf fy hun - "mi ryda ni'n dipyn o genedl"! Meddwl yn ystod seremoni Cymru a'r Byd fel ryda ni wedi cael ein blingo dros y canrifoedd a gresynu bod miloedd wedi gorfod gadael Cymru i wella'i stâd.

Wrth adael y maes b'nawn Sadwrn a rhoi cipolwg olaf ar y Pafiliwn, sylweddoli mai'r cwt sinc y mae cymaint o ddirmygu arno yw f'eglwys gadeiriol i, a'r hyn sy'n digwydd ynddo'n adlewyrchu yr oll a garaf yn ein diwylliant. Dwy ddarlith ddifyr yn fy maes i, alawon gwerin gan Dafydd Iwan, Phyllis a Merêd yn y Stiwdio Gerdd. Rhaglen deyrnged i ffrind annwyl Aneurin Jenkins Jones yn Theatr Fach y Maes a sawl orig ddifyr yn y Babell Lên.

## Canolfan Gymraeg Glantaf

Ffôn 842056 (Hwyr a Bore)
554511 (Hwyr)

PENNAETH Y GANOLFAN
Mrs. Ann Evans

DIRPRWY BENNAETH
MRS. Yvonne Morgan

# LLUN

### Canolfan Oedolion Glantaf

**Addysg Feithryn** *10 wythnos. Mrs. Avril Jones*
**Arlunio** *(1).* 25 wythnos. *Mr. A. Evans*
**Cymraeg i Ddysgwyr** *(1).* 25 wythnos. *Mrs. E. P. Morris.*
**Cymraeg Hanner Wlpan (2 noson)** 25 wythnos. *Mr. Alan W. Jones.*
**Cymraeg i ddysgwyr** *(2). Mrs. Judith Lewis.*
**Cymraeg i ddysgwyr** *(3).* 25 wythnos. *Mr. Gwilym Roberts.*
**Cymraeg** *(lefel 4).* 6.30-9.30pm.
**Cymraeg - Croesi'r Bont - Safon Blwyddyn 4/5 Dechrau Medi 17eg** *(UF). Mr. Alun Treharne.*
**Clwb Siarad Cymraeg** 25 wythnos. *Mr. Zac Davies.*
**Coginio Bwyd Cyflawn** 10 wythnos. *Mrs. Ann Davies.*
**Cadw'n Heini i Fiwsic** 20 wythnos. *Mrs. Non Evans.*
**Cadw'n Heini i Ddynion** 7.30-9pm. 25 wythnos. *Clwb Atodol.*
**Crefftwaith** 20 wythnos. Mrs. S. Rose.
Cymryd Cyffuriau - sut i adnabod yr arwyddion 5 wythnos. *Dr. I. J. Davies.*
**Ffrangeg - Paratio am y Gwyliau** *(1).* 25 wythnos. *Mrs. J. Campbell.*
**Gwaith Coed** *(1/2).* 20 wythnos. *Mr. Phil Davies.*
**Gwnio - Gwneud Dillad y Teulu** 10 wythnos. *Mrs. Meinir A. Rees.*
**Hanes Cymru** 10 wythnos. Mr. C. Davies.
Teipio R.S.A. *(1&2).* 25 wythnos. *Mrs. Gwenda Williams.*
**Yoga** *(4/5).* 7.30-9pm. 25 wythnos. *Mrs. Valmai Evans.*
**Yoga** 2.00-3.30pm. 10 wythnos. *Mrs Valmai Evans.*

# MAWRTH

### Canolfan Oedolion Glantaf

**Clwb Rygbi Cymru** *(Aff.).* 6-7.30. 25 wythnos. *Mr. D. Hughes. Ffôn. 45970*
**Clwb Cymric F.C.** *(Aff.).* 6-7.30pm. 25 wythnos. *Mr. G. Roberts. Ffôn. 623413.*

# MERCHER

### Canolfan Oedolion Glantaf

**Cymraeg (dwy noson) 1/2 wlpan** 25 wythnos. *Mr. Alan W. Jones.*
**Cymraeg** *(2).* 25 wythnos. *Mrs. E. Prosser Morris.*
**Cacennau - gwneud ac addurno** 10 wythnos. *Mrs. E. P. Thomas.*
**Y Pêr Ganiedydd (Dechrau 3.10.84)** *(UE). Dr. Meredydd Evans.*



WELSH WATER DŴR CYMRU

# DOGNI DŴR

Oddiar ganol mis Chwefror bu llai na hanner y glawiad arferol yng Nghymru. Oherwydd hynny mae'r sefyllfa gyflenwi dŵr yn Ne Ddwyrain Cymru yn achosi cryn bryder. Rhaid arbed dŵr nawr!

Mae cawod yn defnyddio tua 8 galwyn o ddŵr bob tro o'i gymharu â bath sy'n defnyddio rhyw 18 galwyn. Os oes gennych gawod, defnyddiwch hwnnw yn hytrach na'r bath os gwelwch yn dda.

Mae peiriant golchi llestri yn defnyddio oddeutu 20 galwyn bob golchiad. Os oes rhaid ei ddefnyddio arhoswch nes bod gennych ddigon o lestri i'w lenwi.

Yn yr un modd, gan fod peiriant golchi dillad yn gallu defnyddio hyd at 30 galwyn bob tro, arhoswch nes bydd gennych ddigon o ddillad i'w lenwi.

Dyfrlifwch y toiled dim ond pan fydd yn hanfodol - bydd diferyn o ddiheintydd yn ddigon gan amlaf.

Defnyddiwch hen ddŵr ar yr ardd. Credwch neu beidio mae dŵr llawn sebon yn gwneud lles i'r rhosynnau - mae'n lladd clêr gwyrdd.

Peidiwch â gadael i'r tap redeg wrth i chi lanhau'ch dannedd neu wrth siafo.

Os oes tap yn gollwng dyma'r amser i'w drwsio - bydd yn staenio'r fowlen maes o law beth bynnag.

Dylai unrhyw siop neu dafarn, glwb ac ati sydd â thoiled yn dyfrlifo'n awtomatig ei droi i ffwrdd dros nos.

**Mae eich ymdrechion i gynilo dŵr yn golygi na fydd dogni cyn 17fed o Fedi. Ond rhaid dal ati a gwella, hyd yn oed, os am sicrhau na fydd dogni wedi hynny.**

COFRESTRU am 7 o'r gloch
MEDI 17 a 19 1984
CYNLLUN TÂL
Medi seilio ar 70c yr awr.
CATEGORIAU ARBENNIG
Pensiynwyr/Myfyrwyr dan 18/Y diwaith a'r anabl- £3 y tymor.
AM LAWLYFR A MANYLION PELLACH-FFONIWCH 842056

# Colled Casnewydd

Yn ystod Mis Mehefin 1984 fe gollwyd un o gymeriadau lliwgar a hynod Casnewydd - D.R.Hughes (Dafydd Siop y Bont). Hanai o Lŷn, a bu'n forwr cyn sefydlu yng Nghasnewydd flynyddoedd lawer yn ôl. Rhwygodd fywoliaeth ddigon main fel perchennog Siop Lyfrau Cymraeg.

Oddigerth ei wraig a chwech o blant, y ddau achos a hawliau ei frwdfrydedd oedd y gymdeithas yng nghymuned Pill-gwenlli (ardal gyffelyb i Heol Bute yng Nghaerdydd) a safle'r Gymraeg yng Ngwent. 'Roedd yn ŵr eiddil o gorff ond cadarn o argyhoeddiad, a gweithiwr diflino dros y pethe.

Digwyddaf wybod am ei sel dros sefydlu addysg Gymraeg yng Nghasnewydd a'i garedigrwydd anhygoel i Gylchoedd Mudiad Ysgolion Meithrin yr ardal. Gwn hefyd am ei gyfraniad unigryw i drigolion Pill-gwenlli. Pa sawl maes arall a elwodd o'i gefnogaeth a'i ddygnwch nis gwn, ond 'roedd y gynulleidfa a ddaeth ynghyd i Eglwys San Steffan ar Fehefin 27 yn brawf o'i statws yn y fro.

Arweiniwyd y gwasanaeth angladdol gan y Ficer, y Parchedig Brian Stares ynghyd â 'hen' gyfaill ifanc, y Parchedig William Owen o Ogledd Ceredigion. Dyna'r gwasanaeth dwyieithog gorau ei naws y bum ynddo erioed. Nid dim ond cydnabod yn gwta yr iaith Gymraeg a wnaed, ond 'roedd yn naturiol gyfartal - a hynny o flaen cynulleidfa luosog a chymysg ei hiaith a'i lliw. Gorffenwyd yr oedfa gyda hanner y gynulleidfa yn canu'n orfoleddus "What a friend we have in Jesus" a'r hanner arall yn morio canu "Calon Lân" (ar yr un dôn!)

Go brin y bydd unigolyn arall yn barod i gynnal Siop Lyfrau Cymraeg yng Nghasnewydd, a go brin y bydd cymeriad mor hoffus ac egniol a Dafydd Hughes yn chwifio baner Cymreictod yn nhalcen caletaf Cymru. Sefydlodd y Bedyddwyr achos Cymraeg ym Mhill-gwenlli yn 1843 - 17 mlynedd cyn sefydlu achos Bedyddiedig Saesneg yn yr ardal. Diflannodd yr achos Cymraeg o gylch ugain mlynedd yn ôl. Gyda marwolaeth Dafydd Hughes, ciliodd i bob perwyl y dystiolaeth ola' o Gymreigrwydd ym Mhill-gwenlli, Casnewydd. Heddwch i'w lwch a bendith ar ei weddw Peg a'r teulu.

GWYNN TUDNO.



Sian Ffion Davies,25,Berry Mead Rd.,Cyncoed gyda'r ffrwythau a dderbyniodd oddi wrth y rhaglen "Brysiwch Wella" ar Radio Cymru.

MERCHED Y WAWR.

Daeth hirnos haf â'i nosweithiau hir i ddenu'r merched i grwydro'r cymoedd. Yng nghwmni'r Dr. Gwynfor Jones ymwelwyd â chapel Watford, achos anghydffurfiol agorwyd ym 1743. Ynna cynhaliwyd y Sasiwn Fethodistaidd gyntaf gyda'r cewri Methodistaidd yn bresennol.
Ar drofa fer oddi yno saif Castell Caerffili, y mwyaf o gestyll Cymru a'i hanes yng nghudd rhwng ei furiau cedyrn. O'i adael rhaid oedd dringo nes cyrraedd y waen agored, lle saif capel Bedyddwyr Hengoed. Siom oedd bod y capel ar glo ond 'roedd y tywydd braf o blaid i ni sefyll y tu allan a chofio am Forgan John Rhys a arloesodd fyd newydd yn Wisconsin tu hwnt i'r Iwerydd.
Oddi yno teithiwyd dros domen y tir i Gwmfelin Fach i gapel Coffa Islwyn. Arall oedd ein croeso yma a rhwydd fu ein hynt yn y capel ac ar lan y bedd yn y fynwent.
Erbyn i ni droi'n ôl i Gapel Minny Street roedd y pwyllgor wedi paratoi'n helaeth i ni wrth y byrddau, a mawr ein diolch iddynt.
Ar yr ail ddydd Llun o'r mis yma y bydd y gangen yn ymgynnull eto â rhaglen amrywiol. Deil yr awenau yn nwylo Mrs Myfanwy Jarman, Mrs Rosemary Davies yw'r ysgrifennydd a Mrs Gaynor Maddocks yw'r trysorydd.

YSGOL FEITHRIN LLANDAF

Mae angen athro/athrawes ar gyfer yr ysgol feithrin ym Mis Medi.Oriau:prynhawniau Mawrth,Mercher a Iau o 1pm tan3pm.Telir cyflog o £15 yr wythnos.Rhaid i'r ymgeiswyr fod a chymwysterau dysgu neu dylent fod wedi dilyn cwrs y Mudiad Ysgolion Meithrin. Cysyllter a Sheila Cousins (30042) neu Julia Richards, (42907)

# O Stesion i Stesion

Chwilen un o'r lleill, tua'r Nadolig, oedd y trip. Cafwyd mynych gyfarfod yn Neuadd Dewi Sant a'r wyth ohonom yn rhythu ar fapiau, llyfrau a phamffledi'r Rheilffyrdd Prydeinig. Mabwysiadwyd y cerdyn Interail, ac amlinellu cwys fras o gopa Belg i Dde Groeg. Erbyn mis Mai, 'roedd y tocynnau wedi'u prynu, a sicrhawyd yr amryw bapurau swyddogol angenrheidiol. Dewiswyd taith trwy brif ddinasoedd deuddeg o wledydd ac, yn wythnosau tyngedfennol adolygu ac arholiadau, edrychem ymlaen yn eiddgar at ddydd Iau olaf Mehefin.

Bu'r teithio'n well na'r disgwyl, a theithiau o bum awr i'w gweld yn bitw wedi'r rhai maith, rhyngwladol. Cysgwyd sawl noson yng nghoridorau cul a budr trenau'r cyfandir, a synnech gymaint o Ewropeaid eraill a dreuliau wyliau mor debyg i'n rhai ni.

Pan na theithiem dros nos, gwelsom doreth o stafelloedd a gwersylloedd rhad - rhannem ein nosweithiau gyda hipis Amsterdam, ac yn Salzburg bu'n rhaid inni godi'n ufudd i orchymyn telesgrîn ac uchelseinydd.



Cysgem yn glyd ar do gwesty yn Athen (ar y 'raddfa economig'!) cyn cael ein codi am 6.00 a.m. i osgoi cyrch gan heddlu Groeg. Bu nosweithiau hudol eraill, dan ser cynnes Corfu a De Ffrainc, er bod un o'r rheini ar ddec rhydlyd llong-fferi Patras-Brindisi.

Cawsom flas ar fwydydd amrywiol hefyd. Pain Francais a'r McDonalds melltigeidg yn ngogledd Ewrop, a Wurst Bafaria, ac yn y de gallem fforddio souvlakis, kebabs, moussaka neu pizza a phasta. Ar adegau, pan oedd gwres y cysgod dros 95°, neu os methwyd newid i'r arian treigl cywir, ni fwytwyd rhyw lawer o gwbl, ond ceisiem sicrhau y caem flas ar Carlsberg Sgandinafia, Lowenbrau, ouzo, retsina, chianti a chlaret yr amryfal wledydd. Heblaw am fwyta, yfed a lletya, gallaf rhestru rhai safleoedd diddorol a welwyd. Fe'n taflwyd allan yn ddi-seremoni o adeiladau'r Gymuned Ewropeaidd, cyn ymadael am Asterdam i weld, â braw, fod mwy i'r ddinas honno na chamlesi ac Ann Frank. Chwerthin, wedyn, gan mor fychan oedd morforwyn Kbenhavn, a hynny cyn iddi golli'i braich, ond cael rhyfeddu ym mhen deuddydd at fawredd clasurol Vienna. Zagreb yn fyd newydd, llwm, a gweddillion crand y gorffennol yn dirywio wrth i'r plastr ddisgyn, ffenestri 'di torri a phistyll di-fywyd.

Ymdeimlo â mawredd Groeg ar ben yr Acropolis, gweld dim o gyfrwy Moped yn Corfu, ond ymfalchio yng nghyfaredd a chymeriad pob dinas Eidalaidd. Gorwedd ar draeth yn Ne Ffrainc, ac yna'r daith olaf, via Paris i Gaerdydd.

O'R CHWITH I'R DDE YN STESION CAERDYDD:- Sion Tomos, Rhidian Phillips, Ifan Saer, Roland Tomos, Guto Harri, Owain Arfon, Dewi Hughes, Geraint Lewis.

********************************

GUTO HARRI.

holl lyfrau Cymru ynghanol y dref
Oriel
Siop Lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru, 53 Heol Siarl, Caerdydd Ffôn: 395548
Catalogau ar gael

CLWB CINIO MERCHED CAERDYDD.

Cynhelir y cinio nesaf yng Nghwesty'r Thatchers yn Heol Fidlas am 7.30-8.00 Nos Iau, Medi 13eg. Byddwn yn talu tua'r chwe-phunt am y cinio ond does dim tâl aelodaeth am ymuno â'r cylch. Mae croeso i bawb yno o Gaerdydd, Dinas Powys, Y Barri - ac unrhyw ardal o fewn cyrraedd. Ein Cadeirydd ym Mis Medi yw Cit Boobyer ac fe fydd hi'n falch o dderbyn galwadau ac ymholidau ar Caerdydd 487276, neu ymgysylltwch â Marion Jones 594378 neu Nia Hall Williams 752755.

BARBYCIW'R DINESYDD.

Cafwyd Barbyciw yng nghartref Michael ac Ethni Jones yn Allt y Wennol, Llanbedr y Fro, a hynny mewn ymdrech i chwyddo coffrau'r Dinesydd. Yn anffodus 'roedd nifer o weithgareddau eraill ar yr un noson a bach oedd y criw a ddaeth ynghyd. Yn wyrthiol fe wnaed elw oddeutu £200, er cystal hynny, cofied y darllenydd bod pob rhifyn o'r papur hwn yn costio £250.

Diolchwn i Michael ac Ethni am eu gwaith a'u croeso, a'u brwdfrydedd yn cefnogi'r Dinesydd. Diolch i aelodau o'r pwyllgor fu'n chwysu'n y gwres i goginio'r cig ac i bawb a gyfranodd tuag at y salads. Diolchwn i'r cigydd lleol am werthu'r cig yn rhad iawn inni.

'Roedd y tywydd a'r amgylchedd yn arbennig ac fe gafodd y criw bach a oedd yno wledd i'r bol, i'r llygaid ac hefyd i'r glust. Diolch i Rhiannon Rees, Eirlys Pritchard Jones a Rhisiart Arwel am ein difyrru - yn gelfydd, gwar a difyr.

Os yw'r Dinesydd yn ymladd yn barhaus i gadw'i ben uwch y dŵr, yn rhyfedd iawn y mae'r gweithgareddau a drefnwn i godi arian bob amser yn nosweithiau cartrefol, clên a hwyliog. Y mae cyflawni hynny ynddo'i hun yn gyfraniad i fwrlwm ein bro. Y tro nesa - dowch yn lluoedd i fwynhau ac i gyfrannu!



# CYSTADLEUAETH



Anghofiwch am y bingo a'r miliwn o bunnoedd.O hyn ymlaen fe fydd cystadleuaeth gynhyrfus yn y Dinesydd bob mis.Enwch y lle yn y llun yn gywir a gallwch chithau ennill gwobr fythgofiadwy. Cyfle i ddangos pa mor dda yr ydych yn adnabod yr ardal a chynhyrfu'r adrenalin wrth feddwl mai chi fydd yr un lwcus.Felly crafwch eich pen a rhowch eich cynnig yn y post a'i ddanfon at Rhodri Gwyn Jones,4 Maes y Sarn,Pentyrch,Caerdydd i gyrraedd erbyn yr 22ain o Fedi.

# Parabl Parry

Dechrau blwyddyn ydi mis Medi i bawb sydd a chysylltiadau a byd addysg-boed nhw'n ddisgyblion,athrawon,neu rieni a bob mis Medi ers rhai blynyddoedd mi fydda i'n dwyn i gof y cyfnod Medi 1967 hyd Gorffennaf 1968 - dwy o'r blynyddoedd hapusaf gefais i erioed.

Ym Medi 1967 mi es i weithio am y tro cynta-mynd i ysgol Bryntaf i gymryd gofal o'r dosbarth meithrin-deg ar hugain o blant 4-5 oed-a rheiny yn rai bywiog - bron mor fywiog a'm cyd-athrawon ond neb mor fywiog a'r brifathrawes lawen - Enid Jones Davies.

Dwy'n siwr fod llawer ohonoch chi ddarllenwyr y Dinesydd yn cofio'n hen ysgol ar y bryn uwchben afon Taf yn yr ardal a adwaenir Highfields.Yno y byddai pump o fysus yn gollwng fflyd o blant am 9 y bore a'u casglu nhw tua hanner awr wedi tri. Gellwch chi ddychmygu'r anhrefn ar ddechrau blwyddyn fel hyn - ag yn ddi-feth yn ystod y mis cynta mi fyddai sawl plentyn o'r dosbarth derbyn yn mynd adre ar y bws anghywir ac yn diweddu yng nghartre'r athrawes oedd yn teithio ar y bws.

Doedd dim modd cael clonc amser chwarae nag amser cinio gyda gweddill y staff - na roedd Gareth neu Non yn crio neu Charlotte yn gorfod cael ei bwydo (heb goncro defnyddio cyllell a fforc eto)Mari'n methu setlo am fod babi newydd adre a David ddim yn deall nad yn siarad iaith y nefoedd.

Dyna yn siwr i chi fydd y sefyllfa eto eleni yn y bedair ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas a'r plant y bum i'n eu dysgu yn ol ym 1967 erbyn hyn yn rieni eu hunain.Tybed oes yna ambell un eleni yn treulio ei diwrnod yn magu plant dosbarth derbyn yn rhywle?Dyddie braf!

# Y GOLOFN GAIN

gan Emyr Lewis

Prin yw'r bobl hynny y gellir dweud amdanynt eu bod wedi rhoi gair newydd i'n hiaith. Prinach yw'r rhai a all honni bod eu henwau wedi dod yn rhan o'r iaith. Un o'r rhai hynny yw Arfon Williams, y bardd o Eglwys Newydd y bu y golofn hon dan ei ofal hyd yn hyn.

Fe glywir yn aml am englyn ei fod yn un "Arfonaidd" yn sgil llwyddiant Arfon i gyflawni un o'r campau anoddaf i unrhyw fardd, sef rhoi ei stamp a'i arddull ffres ei hun ar hen fesur. Cyhoeddodd Arfon ddwy gyfrol o'i waith hyd yn hyn. Yn anffodus, ni ddaeth ei ail gyfrol y bu cymaint o ddisgwyl eiddgar amdani o'r wasg erbyn sgwennu'r golofn hon, ond mae'n gymwys serch hynny i dalu teyrnged yma yng ngholofn farddol "Y Dinesydd" i un a fu mor weithgar yn ei chynnal ac i un sydd mor barod a charedig ei gyngor a'i anogaeth i bobl ifanc a hen sy'n dymuno ymwneud a byd barddoni a llenydda yn y Brif Ddinas.

Beth felly yw "englyn Arfonaidd"? Gellid nodi sawl priodoledd: manylder crefft, delweddau trawiadol, ysgafnder hoffus, diffuantrwydd distaw. Ond nid trwy restru priodoloddau yn unig y mae dod at wir arbenigrwydd cerddi Arfon.

Mae ei englynion yn wahanol am eu bod yn gweithio mewn ffordd wahanol. Mae eu rhrethreg yn wahanol. Yn aml, dim ond un frawddeg a geir mewn englyn o'i eiddo, ac mae'r frawddeg honno yn un sydd wedi ei hadeiladu yn grefftus, gan ddefnyddio'r gynghanedd fel gwrthbwynt rhethregol.

Dewisaf fel enghraifft gerdd o'i gyfrol gyntaf.

<u>YMSON MAIR</u>

Heno datgelwyd i minnau paham
Y mae pen y bryniau
Oll yn oll yn llawenhau, -
Mae'r achos yn fy mreichiau.

Dyma un frawddeg, yn cychwyn â chynghanedd nad yw rhywun yn sylwi arni bron, gan mor sgwrsiol yw'r ymadroddi. Mae'r gair "datgelwyd" yn paratoi'r darllenydd ar gyfer cyfrinach, gan godi ei ddisgwyliadau. Mae'r cyfatebiad cytseiniaid yn "paham" a "pen" yn fwy ffrwydrol, ac o ganlyniad, daw symudiad i ffwrdd o'r llais anffurfiol. Cryfheir y symudiad hwn gan y gynghanedd sain yn y llinell nesaf sy'n adeiladu at uchaf-bwynt rhethregol y gair "llawenhau". Yma, yr ydym yn cael ein tynnu i ffwrdd oddi wrth y fam a'i chyfrinach at y greadigaeth gyfan, ond mae'r gyfrinach yno o hyd.
Mae'r rhethreg yn ein tynnu ni i mewn i lawennydd y cread ar y naill law, ond mae o hefyd yn ein rhwystro yn ramadegol ac yn seicolegol rhag cael gwybod yn hollol beth yw'r hyn a "ddatgelwyd". O ganlyniad, mae ein awch am wybod yn fwy.
Pan ddaw'r ateb, 'rym ni'n dychwelyd at lais anwyl, personol y fam. Mae'r newid yn un sydyn, nid un graddol, ac mae'r ateb yn un anuniongyrchol, cynnil: "Mae'r achos yn fy mreichiau", ond mae'n datgelu'r cwbl, mewn modd cnawdol, diriaethol.
Mae newidiadau llais a thôn, rhethreg y gynghanedd a llif gramadegol y frawddeg yn cael eu defnyddio mewn modd sy'n gwneud undod o'r gerdd.

Estheteg

Ramantaidd yw hi, ond un sy' â'i thraed ar y ddaear, yn deall pobl a'u teithi meddwl, boed mam a phlentyn, neu boed darllenydd busneslyd sy' eisiau gwybod cyfrinach.

Croeso i unrhywun sydd am gyfrannu i'r golofn hon i wneud hynny. Hoffwn gael cyfraniadau o bob math a lliw a llun, boed awdl neu gerdd gocos. A dweud y gwir, 'rwy'n credu y gosodaf gystadleuaeth y mis hwn am gerdd gocos. Y testyn yw "Yr Eisteddfod".

Cosbir afledneisrwydd a diffyg chwaeth, oni bai bo rheswm artistig digonol dros eu cynnwys. Gwobr arbennig i'r person sy'n rhoi y cyfiawnhad gorau o'r fath.

Cyfansoddiadau i law y Golygydd erbyn 17.Medi.

# I'r Alban?



Cychwyn RAS FALWNS Cymuned Y Mynydd Bychan yn ystod yr ARDDWEST yng Nghoedarhyd-yglyn gan Malcolm Thomas ac Emyr Currie-Jones.Aeth un o'r balwns yr holl ffordd i'r Iseldiroedd!
ENNILLYDD:
John Scotland,
7,Dorchester Ave.,
Caerdydd
ac aeth ei falwn e at:
Franse Van den Hanenburg
Geffen,
Yr Iseldiroedd.

# GAIR O'R POST

GORSAF RADIO ANNIBYNNOL AR GYFER DE-DDWYRAIN CYMRU?

Darllenais gyda ddiddordeb y golofn olygyddol yn rhifyn Gorffennaf/Awst o'r Dinesydd ynglyn a'r gwasanaethau radio annibynnol yng Nghaerdydd a Chasnewydd:
Ein dyletswydd ydyw sicrhau gwasanaeth radio a theledu annibynnol sydd yn adlewyrchu dalgylch yr orsaf a dyheadau'r gynulleidfa.O gofio natur unrhyw gynulleidfa,nid gwaith hawdd yw hyn. Ein cyfrifoldeb yw apwyntio cwmniau(yn aml ymhlith nifer o ymgeiswyr)ac i sicrhau gwasanaeth teilwng,amrywiol, atyniadol i'r gynulleidfa gyfan-ac i'r hysbysebwyr fydd yn talu am y gwasanaeth.
Nid ar fympwy y dewiswyd ardaloedd Caerdydd a Chasnewydd yn y saithdegau fel ardaloedd ar wahan.Roedd y neges yn glir O'r ddwy ardal-pe bai angen hynny-eu bod yn wahanol iawn i'w gilydd;ac roedd yr hinsawdd economaidd hefyd yn wahanol y pryd.
Yn fuan wedi cyhoeddi'r erthygl daeth newydd bod ccwmni CBC yn dileu patrwm eu rhaglenni min nos,gan gynnwys y cynnyrch Cymraeg;a'u bod hefyd yn dileu y bwletinau newyddion yn ystod y dydd. Mae'n hysbys bod y cwmni wedi wynebu trafferthion ariannol ers y cychwyn a'u bod wedi ymdrechu'n lew-gyda theyrngarwch ac ymroddiad eu staff ac aelodau'r ymddiriedolaeth-i gynnal gwasanaeth oedd yn unol a'u maniffesto gwreiddiol. Derbyniasant glod am eu gwasanaeth yn ystod eira gaeaf 1982.Byddant eto yn sicr yn gwneud pob ymdrech i gynnig cymorth a gwybodaeth yn ystod dogni dwr,os daw i hynny.
Ond am doriadau'r rhaglenni min nos.Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd radio annibynnol yn cynhyrchu rhaglenni i gynulleidfaoedd "arbennig" yn ystod cyfnod hwn o'r dydd. Rhaglenni cerddoriaeth glasurol,jazz,roc a rol,ac hefyd rhaglenni mewn ieithoedd tramor i fewnfudwyr a chymdeithasau ethnig,i'r anabl ynghyd a rhaglenni crefyddol. Cymharol fechan ar y cyfan yw nifer y gwrandawyr;mae gan y cynnyrch gystadleuaeth gref oddi wrth y gwasanaethau teledu heb son am ddim arall. Nid ar chwarae bach y bydd cwmni yn hel incwm o hysbysebion-yr unig incwm sydd ar gael iddynt.Yn y sefyllfa bresebnol mae cwmniau mewn nifer fawr o geysydd yn ei chael hi'n anodd iawn i greu a chynnal yr incwm ac i sicrhau llif-arian angenrheidiol i gynnal beth bynnag fo'u gwasanaeth;ac i gyfarfod ag ad-dalaiadau cyfalaf sefydlu busnes yn y lle cyntaf.

Dyna gefndir i'r sefyllfa. Fel mesur dros dro gofynnwyd i'r IBA am ganiatad i CBC gael dileu y cynnyrch minnos gan osod yn ei le dwy raglen o dair awr fel arbrawf i ddenu'r gynulleidfa iau at wasanaeth yr orsaf.Byddai hyn yn arbed ar gost rhaglenni arbennigol ac yn lleihau'r baich ar yr adnoddau staff prin i gryfhau cynnyrch a chynulleidfa'r dydd-yr elfennau sy'n caniatau ac yn talu am gynnyrch gweddill y diwrnod.
Gydag anfodlonrwydd y cytunodd yr Awdurdod Darlledu i'r cais i ddileu rhaglenni' Cymraeg-ac eraill-ar yr amod mai mesur dros dro oedd hyn a'n bod yn disgwyl iddynt gael eu hadfer cyn gynted ag y bo modd.Ni osodwyd unrhyw amserlen;fel a nodwyd,mae'n ofynnol ar yr orsaf i ymgryfhau ei adnoddau.Ond byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn ofalus.

EIRION LEWIS (SWYDDOG YR IBA DROS GYMRU)

NODYN GOLYGYDDOL
Mae Bwrdd Golygyddol y Dinesydd yn cadw'r hawl i dalfyrru unrhyw erthygl neu lythyr sy'n cael eu cyhoeddi yn y papur.

---

2 Panteg,
PENTYRCH,
Caerdydd.
891899.

Annwyl Olygydd,

Tybed a fuasai'n bosibl hysbysebu tŷ ar werth yn rhifyn nesaf 'Y Dinesydd'? Dyma'r manylion am y tŷ fel a ganlyn:-

Tŷ Modern - Dinmael ger Corwen. 3 llofft, ystafell 'molchi, parlwr, ystafell fwyta, cegin helaeth gyda 'rayburn'. Briws a chyntedd hwylus. Garej, cwt glo, tŷ bach a gerddi taclus. Ffon:- Maerdy 329.

Cofion,

IOLA HUMPHREYS.

# PYTIAU

Ganwyd merch fach i Hefin a Chatrin Mathias ym Mis Gorffennaf. Athro hanes a phennaeth yr Ysgol Uchaf Llanhari yw Hefin, a hyd yn ddiweddar bu Catrin, o Lôn Las, Llansamlet, yno hefyd fel athrawes yn yr adran Gymraeg.

---

Llongyfarchiadau i Elspeth Hopwood, athrawes Ymarfer Corff yn Ysgol Gyfun Glan Taf ac Ian Hughes sy'n adnabyddus i lawer am ei adroddiadau byd y bêl ar Radio Cymru. Merch i Eifion ac Owenna yw Elspeth ac mae Ian yn ŵyr i'r Parchedig Lewis Valentine, Bydd y ddau'n ymgartrefu yn Llandaf ar ôl eu priodas yn Eglwys Dinas Powys ar Awst 21ain.

Llongyfarchiadau i Gareth Thomas a Sian R Williams ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'r ddau yn ymgartrefu yn y Waun. Pob dymuniad da i'r ddau.

---

Llongyfarchiadau i Aled Eurig a Troude Rogers ar achlysur eu priodas a'r Orffennaf 14eg yng Nghapel Radnor Walk, Llundain, (neu gapel tad y priodfab!) Newyddiadurwr gyda HTV yw Aled ac er mai un o deulu sy'n hannu o Seland Newydd yw Troude, mae hi bellach yn rhugl ei Chymraeg. Pob hwyl iddyn nhw yn eu cartre yn Nhreganna.


Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

LYNN JONES

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

*Buddsoddiadau*

*Yswiriant Bywyd*

*Pensiynau*

# COFIO STEDDFOD '65

'STEDDFOD '65.

Yn ystod y misoedd nesa' byddwn yn bwrw golwg yn ôl ar Eisteddfod Yr Urdd Caerdydd yn 1965 gan sôn am rai o bersonoliaethau'r ŵyl, yn weithwyr a chystadleuwyr.

Un o'r enillwyr oedd Robin Gwyndaf, sy bellach yn Is-geidwad yr Adran Llên Gwerin yn Amgueddfa San Ffagan ac yn byw yn Heol San Mihangel, Llandaf gyda'i wraig Eleri a'u plant Llŷr a Nia. Dyfarnwyd iddo Goron yr Eisteddfod (rhodd Cymrodorion Caerdydd) am ei stori-fer hir "Ha' Bach Mihangel", hanes hen ffermwr wedi ei seilio ar atgofion Robin am ardal ei gartre' yn Llangwm.(Mae'r enw 'Mihangel' yn britho ei fywyd - codwyd ei hen gartre' 'Yr Hafod' gan Fihangel arall, Michael D Jones,a fu'n casglu rhent gan ei Nain am flynydde). Er iddo fod yn ymwybodol o amhoblogrwydd cyhoeddi atgofion fel y cyfryw heddiw, mae'n pregethu'n huawdl o blaid "cyflwyno ddoe i heddiw er mwyn 'fory" dry unrhyw gyfrwy, cyfoes posibl, yn llenyddiaeth neu deledu.

Dydi Robin ddim wedi cystadlu ar ôl ennill e' goron ac mae'n cyfadde' nad yw, Chwaith, wedi 'sgrifennu'n greadigol ers hynny er iddo gyhoeddi cannoedd o erthyglau ac ysgrifau yn sgil ei ddiddordeb yn niwylliant gwerin ac fel rhan o'i waith yn yr Amgueddfa. Efallai bod angen yr her gystadleuol i'w ysgogi i lenydda unwaith eto. Yn sicr mae'n uchel ei glod i'r Urdd am roi'r cyfle a'r hwb angenrheidiol i ambell i gystadleuydd agor ei geg ar lwyfan neu rhoi pin ar bapur ar gyfer Eisteddfod. Er bod naws a mynegiant y cynnyrch wedi newid ers ei goroni ugain mlynedd yn ôl mae'n argyhoeddiedig mai un o wyrthiau'n hoes ni yw'r ffaith bod llenorion ifainc fel Elin ap Hywel ac Angharad Jones yn dod i'r wyneb, blwyddyn ar ôl blwyddyn. (Cyd-ddigwyddiad rhyfedd yw bod Robin yn byw o fewn tafliad carreg i hen gartre Angharad, ennillydd y goron eleni).


Hoffai droi ei law at sgwennu nofel "ond bydd rhaid gwneud amser yn hytrach na gadael i'r amser ddod" a mae'n glynnu at y pwysigrwydd o bortreadu'r filltir sgwâr.
Ond erbyn hyn fel llawer o blant sy wedi magu, yn wahanol iddo fo, mewn ardaloedd Seisnig mae'n teimlo bod ei filltir sgwâr wedi ymledu i gynnwys Cymru gyfan - a Chaerdydd yn ei holl agweddau yn rhan o'r diriogaeth honno - (câs ganddo glywed ladd ar y ddinas a'i chymdeithas). Efallai y daw "na Ha' Bach llenyddol i Heol San Mihangel unwaith eto". Ac, os daw, un peth sy'n sicr - fe fydd 'na lai o ebychiadau emosiynol y tro nesaf!

"'Roeddwn i'n afradlon im 'O's' ac 'A's' yn 1965" meddai Robin. "Rhaid cynilo"!

NODYN I FYND EFO'R LLUN.
Ydych chi'n cofio 'Steddfod '65?
Fuoch chi'n gweithio yno?
Yn cystadlu?
Gawsoch chi gam?
'Sgrifennwch atom gyda'r hanes. Edrychwch ar y llun o Robin ar ddiwrnod ei goroni. Pwy arall sy yn y llun? Rhowch wybod inni.



## Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 45



AR DRAWS

1.O holi Dei yn aml,ceir ei fod yn hollol ddiduedd.(10)
6.Corlan sydd gan y brenin yn Sir Gaerfyrddin.(4)
10.Teithio yn hamddenol braf -- haws i un tew.(4.3.2.6)
11.Effaith andwyol a ddaw i ni o'i weld mewn trybini.(9)
12."Adar o'r ----"(5)
13.Gwaith celfydd wrth ymhoelyd cert uchel iawn.(5)
15.Ai diwygio yw hyn?(6)
19.Llwydrewi.(6)
20.Heb wrthod.(5)
23."----don"(5)
24.Wedi ennill y llawryf.(9)
26.Dihafal.(2.6.2.5.)
27.Anrhydeddu(4)
28.Telor y brwyn,yn ôl y gan.(4.1.5.)
18.Safbwyntiau personol?(7)
21.Ein bos ni oll.(7)
22.Arbedodd.(6)
25.Y mydr sy'n penderfynu ein bod mewn trefn.(5)

I LAWR

1.Bore Calan yn trefnu'r calendr i gyd,(7)
2.Rhadlonrwydd heddwas yn newid.(8)
3.Gwnai broffid(5)
4.Achlysuron i lawenhau pan fydd dros hanner cant yn dod i gymysgu a'th dadau(9)
5.Siop lyfrau yn llofft y capel.(5)
7.Gwylio'r sêr wrthi,neu wrthi'n gwylio'r sêr(6)
8.Deg ceiniog a fu'n bedair ar hugain.(7)
9.Un sy'n creu cyn dod i ddangos gallu.(8)
14.Teithio(yn flinderus)(8)
16.Byddent yn amlhau(9)
17.Strêt i'r bocs sbwriel ar unwaith.(2.3.3)

Datrysiad rhif 44(Gorff/Awst)
AR DRAWS:1.Cystadleuaeth;8.Yr Affrig;9.Deilgoll;11.Gwarchae;12.Oerddrws;13.Nyddodd;14.Disgwylir;16.Anhawddgar;19.Grant;21,Adnabod;23Isadran;24.Thus-erau;25Iarlles;26.Yn edifar iawn.
I LAWR:1,Cnafaidd;2.Sgrechodd;3.Amgaeedig;4.Ledio;5.Unigryw;6.Ei gwrol;7.Llysgenhadaeth;10.Llestri te nain;15.Streic-iwr;17.Hanesyn;18.Wiberod;19Gwawria;20.Affraeon;22.Deuaf.

Cystadleuaeth 44

Daeth saith datrysiad cywir i law. Yr enw a ddaeth o'r het oedd eiddo Chris. Powell, 88 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd. Y chwech arall oedd B.T. Cyncoed; Julia Lloyd, Ger-y-llyn; Tecwyn Vaughan Jones, Y Tyllgoed; B.H. Cyncoed; Dewi Nantglyn, Yr Eglwys Newydd; T.J. Pentwyn.

CYSTADLEUAETH 45
Cynigir tocyn llyfrau Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Atebion gyda enw neu ffugenw ar ymyl y croesair i Ap Lewsyn,13,Rannoch Drive,Cyncoed erbyn Medi'r 22ain.

# Symud Tŷ

Ers yn agos i ugain mlynedd mae'r 'Glan Ely Playgroup' i blant bach dan oed ysgol gynradd, wedi cyflawni gwasanaeth amrhisiadwy yn Nhrelai. Fe'i ffurfiwyd ym 1966 mewn ateb i'r angen a'r galw amlwg am y fath hyn o wasanaeth yn yr ardal, gan rai o aelodau Eglwys y Plwyf.

Ond, ysywaeth, ym Mis Mehefin eleni, daeth diwedd ar y bennod hon yn hanes yr eglwys. Ar unwaith daeth amryw o geisiadau am ddefnyddio'r neuadd - yr unig neuadd addas yng nghanol yr ystâd - o wahanol gyfeiriadau, ond fe gynigiwyd yr adeilad yn ddi-oed i'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Ym Mis Medi, felly, fe fydd yr Ysgol Feithrin leol sydd, ers rhai blynyddoedd wedi cyfarfod yn y neuadd fach gyfyng, gartrefol yn Llanfihangel-ar-Elai yn 'symud tŷ'.

Fe fydd peth tristwch, yn ddiamau, wrth ymadael â'r safle bach hyfryd, gwledig hwn gyda'i olygfeydd eang yn ymestyn dros gaeau a gwrychoedd cefn gwlad.

Fe fydd Ysgol Feithrin Trelai yn agor am bum bore'r wythnos o dan ofal ei hathrawes, Mrs Angela Langford o Dreganna, ac fe'i chynorthwyir hi gan Mrs Jean Beaumond - un o ddysgwyr disgleiriaf ardal Trelai. Yn sicr, gallwn edrych ymlaen yn eiddgar at gynnydd yn nifer y disgyblion Cymraeg yn Nhrelai fel canlyniad i'r datblygiad hyn, a ffrwydriad o ddiddordeb yn addysg Gymraeg yn y rhan hon o'r ddinas. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau.

# LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Sara Llwyd ar basio arholiad ffidil Gradd V gydag anrhydedd. Athrawes Sara yw Elin Angharad Edwards.

Llongyfarchiadau i Eleri Evans o'r Wenfo ar gael ei phenodi yn bennaeth adran Hanes yn Llandysul.

Llongyfarchiadau i Hywel Price mab Gareth a Mari Price ar ei ddyweddiad â Sue Roberts.

Croeso mawr i Gethin,mab bach cyntafanedig Alun a Linda Thomas.Llongyfarchiadau cynnes iddynt.

Croeso cynnes hefyd i Huw,ail fab i Peter ac Elinor Triggs. Bydd Gareth yn falch iawn o'i frawd bach newydd.

Croeso mawr i Alys Haf Roberts,merch fach Aled a Mandy Roberts a aned ar y 25ain o Orffenaf yn Ysbyty'r Brifysgol,Caerdydd.Mae Aled, Mandy ac Alys Haf yn byw erbyn hyn yn Burne Jones Close yn Danescourt,Llandaf..

Llongyfarchiadau i Pat a Gerallt Nash, ar enedigaeth merch fach - Elin Haf, chwaer i Lisa Non.

Croeso'n ôl i Dilyn a Gunston Jones. Mae'n rhaid bod y Ddinas â gafael go dynn arnynt ac maent erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Mhenylan ar ôl tymor byr yn Aberaeron.

Ar Awst 3ydd yng Nghapel Blaen y Coed ger Caerfyrddin priodwyd Eirian Davies, mab Mr a Mrs F.B. Davies, Y Mwmbwls â Lona Walters o Rydaman. Cyfreithiwr yng Nghasnewydd yw Eirian ac mae Lona'n gweithio gyda'r BBC yn Llandaf. Pob hwyl i'r ddau yn eu cartre newydd ym Mhontcanna.

Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Eirwyn Evans, Hafan, Creigiau ar eu hymddeoliad, Eirwyn oherwydd ei iechyd a Mefus ar ôl tymor o 35 mlynedd yn Ysgol Howells, Llandaf. Dymunwn iechyd da a hir oes i'r ddeuddyn yma sydd mor gefnogol i bopeth Cymraeg a hynny ar hyd y blynyddoedd.

Ar Sul olaf mis Awst ganed mab i Wyn a Sian Roberts,Pantmawr.Brawd i Sara ac aelod diweddara Clwb y Cymric.Gobeithio y bydd yn fwy ffit na'i dad!

GYDA'R RHIFYN hwn o'r papur daw nifer o newidiadau yn nhrefniant y Dinesydd i rym. Yn y lle cyntaf daeth tymor golygyddiaeth Aled Islwyn i ben.Hoffem ddiolch iddo am ei waith gan obeithio y bydd yn parhau i'n cynorthwyo. Ni phenodywd olynydd i Aled, ac o hyn allan y panel golygyddol fydd yn gyfrifol am olygu'r papur.

Un arall o hoelion wyth y Dinesydd ers rhai blynyddoedd yw Arfon Williams a fu'n gofalu'n selog am y golofn gain. Mae yntau bellach wedi trosglwyddo'r awennau i ddwylo iau Emyr Lewis. Estynnwn ein dymuniadau gorau i Emyr a'n diolch diffuant i Arfon.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i longyfarch Arfon ar ei lwyddiant yn 'steddfod Llambed yng nghystadleuaeth yr englyn.Gyda chaniatad y Llys yr Eisteddfod, ein braint yw cyhoeddi'r englyn gan obeithio mai nid dyma'r olaf o'i waith a welwn yn y Dinesydd.

LLAW

Diau tlawd ydwyt,lodes,<br>
oherwydd,<br>
er darparu cynnes<br>
wely it a choban les<br>
'rwyt ti'n oer heb bartneres

Llongyfarchiadau hefyd i bawb a arall o'n darllenwyr a fu'n fuddugol yn Llambed.

YN EISIAU

Cymorth cyffredinol rhan amser yn Swyddfa Mudiad Ysgolion Meithrin, 10 Park Grove, Caerdydd. Cysyllter â J. Bryan Jones, Cyfarwyddwr.


# Clerc/ Teipydd

Mae angen Clerc/Teipydd i weithio yn ein Adran Materion Cyfoes brysur yng Nghaerdydd.

Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu personoliaeth ddymunol, y gallu i deipio yn gyflym a chywir a'r ddawn i weithio dan bwysau mewn adran brysur.

Cyflog £5,631 y flwyddyn, yn cynnwys atodiadau lleol, yn cael ei arolygu ar hyn o bryd. Cyfleusterau gweithio ardderchog.

Dylai ymgeiswyr, mab neu ferch, anfon am ffurflen gais gan amgau amlen hunan-gyfeiriedig gan nodi cyfeirnod DI/387 at: Rheolwr Staffio, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

WE ARE AN EQUAL OPPORTUNITIES EMPLOYER

HTV


# CYDYMDEIMLAD

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs.Saunders Lewis yn Ysbyty'r Santes Gwenffrewi,Llandaf ar ddydd Gwener,Awst y 24ain a hithau'n 93 mlwydd oed.Cydymdeimlwn yn fawr a'i gweddw, ei merch Mair Haydn Jones,a'i hwyrion, Marged Elin,Siwan a Dyfrig.

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn a Mrs Rosemary Davies a'i merch Lisabeth o Manor Way ar eu profedigaeth o golli gwr a thad annwyl - Herbert Davies.Meddyliwn amdanoch.

Fe fydd llawer o ddarllenwyr y Dinesydd yn clywed gyda thristwch am farwolaeth Eunice Williams,fu gynt yn aelod o'r heddlu yng Nghaerdydd.Bu farw Eunice yn Llanbrynmair lle'r oedd hi a'i gwr Gwilym a'r plant wedi ymgartrefu ar ol i Gwylim symud o Gaerdydd i gymryd gofal o swyddfa cwmni penseiri Burgess a'i Bartneriaid yn y Drenewydd.Cydymdeimlwn a'r teulu oll.